dros adferiad o afiechyd meddwl difrifol hafal for recovery from serious mental illness

Powys

Adroddiad Blynyddol 2010-2011

Ym Mhowys, mae Hafal yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r elusen leol Rekindle. Rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gan gynnwys y canlynol:

- **Rekindle** yn cynnig cymorth adferiad allymestyn un-i-un ynghyd â gweithgareddau grŵp yn y ganolfan adnoddau yn y Drenewydd.
- Mae **Camau Byr (Small Steps)** yn cynnig cymorth emosiynol un-i-un i bobl ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed.
- Mae **Seibiant** yn darparu cymorth un-i-un a chymorth grŵp i ofalwyr a'r rhai hynny sy'n derbyn gofal.

Uchafbwyntiau'r Flwyddyn:

- Dyfarnwyd grant sylweddol i'r prosiect Seibiant ym Mhowys gan Laura Ashley i barhau i gynnig sesiynau iles i ofalwyr yng Ngogledd Powys ac i gyflwyno'r gwasanaeth hwn a chynnig therapïau holistig i hyd at 25 o ofalwyr yn nhair ardal Powys.
- Mae Seibiant Powys wedi ail-lansio'r grŵp gofalwyr yn Aberhonddu ac mae'r niferoedd wedi parhau i gynyddu.
- Gofynnwyd i Hafal gan y Tîm Triniaeth yn y Cartref newydd yn Ne Powys i gyfrannu tuag at gyfnod ymgynghori yn natblygiad y gwasanaeth hwn.
- Diolch i gyfraniad gan ymddiriedolwyr Rekindle, bydd y gwersi gitâr ar brynhawn dydd Iau yn parhau am chwe mis arall.
- Mae cyfraniad bychan wedi darparu chwistrelliad ariannol mawr ei hangen ar gyfer y grŵp gofalwyr ifanc. Mae'r arian eisoes wedi darparu noson o wneud gemwaith ac mae cynlluniau ar droed i ddarparu gweithgareddau eraill yn y misoedd sydd i ddod.
- Derbyniodd y prosiect 'Camau Byr' (Small Steps) £400 oddi wrth y 'Daisy Fund' tuag at y gost o ddarparu pryd iachus ar gyfer y grŵp am y flwyddyn sydd i ddod.
- Mae Rekindle wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais ar gyfer grant o £89,100 gan yr Henry Smith Charity a'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru (Community Foundation in Wales), bydd hwn yn talu am gostau darparu'r Prosiect Camau Byr (Small Steps Project) am y tair blynedd nesaf.
- Mae'r grŵp cyfryngau ar brynhawn dydd Mercher yn bartneriaeth rhwng Rekindle, Hafal a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Therapi Galwedigaethol. Mae'r grŵp yn parhau i ddenu aelodau newydd ac wedi cwblhau chwe rhifyn taflen newyddion.
- Ym mis Hydref 2010, gwnaethon gynnal sesiwn flas drwy Goleg Harlech yn y grŵp gofalwyr yn y Drenewydd. Cafodd y gofalwyr gyfle i argraffu ar fagiau a gwneud gemwaith ac roeddynt wedi mwynhau.

Rekindle, 2 Stryd Commercial,
Y DRENEWYDD, SY16 2BL
Ffôn: 01686 621266
e-bost: southpowys@hafal.org